



Ffurflen Gais Ymladdwr Tân / Ymladdwraig Dân Ar Alwad

Adran 1: Manylion Personol					
Yr orsaf ar alwad y gwneir cais amdani:					
Mr <input type="checkbox"/>	Mrs <input type="checkbox"/>	Miss <input type="checkbox"/>	Ms <input type="checkbox"/>	Mx <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
Enw/enwau cyntaf:				Cyfenw:	
Cyfeiriad yr ymgeisydd:					
Cod post:					
Rhif cyswllt dewisol:				Ail rif cyswllt:	
Cyfeiriad e-bost: <small>(Sylwer:- byddwch yn derbyn manylion ynghylch dethol trwy neges e-bost)</small>					
Rhif Yswiriant Gwladol:		<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>			
Dyddiad geni:					
Sut clywsoch chi amdanom ni?		Gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru <input type="checkbox"/> Twitter <input type="checkbox"/> Facebook <input type="checkbox"/> Gorsaf Dân Leol <input type="checkbox"/> Digwyddiad y Gwasanaeth Tân <input type="checkbox"/> Perthynas/ffrind <input type="checkbox"/> Taflen <input type="checkbox"/> Ar lafar gwlad <input type="checkbox"/> Arall <input type="checkbox"/> Nodwch _____			

Adran 2: Cyflwyniad

Diolch am fynegi diddordeb mewn gwneud cais i fod yn Ymladdwr Tân Ar Alwad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Cyn i chi ddechrau llenwi'r ffurflen gais, darllenwch y nodiadau canlynol a chwblhewch y rhestr wirio cyn ymgeisio isod. Bydd hon yn eich helpu chi i benderfynu a fyddwch chi'n debygol o fwynhau gweithio fel Ymladdwr Tân / Ymladdwraig Dân Ar Alwad a ph'un ai a ydych chi'n gymwys i wneud cais.

Fe'ch cynghorir y bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei gwirio, ac felly, yn cyfrannu at ein penderfyniad ynghylch a ddylid mynd â'ch cais ymhellach ai peidio.

Nodyn 1:	Mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn pan fydd yr hyfforddiant yn dechrau. Gallwch wneud cais i fod yn ymladdwr tân / Ymladdwraig Dân os ydych chi rhwng 17 oed a 6 mis, ac 18 oed, ond ni fyddwch chi'n gallu dechrau hyfforddi hyd nes eich bod chi'n 18 oed.
Nodyn 2:	Os nad ydych chi'n siŵr a yw hyn yn berthnasol i chi, cysylltwch â'r Tîm Recriwtio ac Asesu ar 01443 232200.
Nodyn 3:	Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub asesu pob ymgeisydd yn unigol o ran ei addasrwydd i gyflawni rôl Ymladdwr Tân / Ymladdwraig Dân, yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb bresennol. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn ystyried pa addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i'ch galluogi chi i barhau â'ch cais, os nad yw'r addasiadau hynny yn mynd yn groes i deddfwriaeth lechyd a Diogelwch. Mae deddfwriaeth lechyd a Diogelwch yn gosod rhwymedigaeth ar Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod unigolion yn ddiogel, er eu diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill. (Yng nghyd-destun y Gwasanaeth Tân ac Achub, mae 'pobl eraill' yn cynnwys cydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd).
Nodyn 4:	O dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, mae'n ofynnol i chi ddatgelu unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu neu achosion troseddol sydd ar y gweill, gan all y rhain yn eich gwahardd rhag gweithio fel Ymladdwr Tân / Ymladdwraig Dân.

Rhestr Wirio Cyn Ymgeisio	Ydw/Oes	Nac ydw/ Nac oes
Ydych chi'n hŷn nag 17 oed a chwe mis? (Gweler nodyn 1 uchod)		
Ydych chi'n gymwys i weithio yn y DU? (Gweler nodyn 2 uchod)		
Oes gennych chi unrhyw fath o liwddallineb? (Gweler y llyfryn Gwybodaeth i Ymgeiswyr)		
Oes gennych chi unrhyw fath o nam ar eich golwg? (Gweler y llyfryn Gwybodaeth i Ymgeiswyr)		
Oes gennych chi unrhyw fath o nam ar eich clyw? (Gweler nodyn 3 isod)		
Oes gennych chi unrhyw fath o anabledd sy'n lleihau eich gallu i ddal neu godi gwrthrychau, neu i godi neu ostwng chi eich hun? (Gweler nodyn 3 isod)		
Ydych chi erioed wedi dioddef o bendro, llewygu, llewygon neu ffitiau? (Gweler nodyn 3 isod)		
Oes gennych chi unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu? (Gweler nodyn 4 isod)		

Ar ôl i chi gwblhau'r rhestr wirio cyn ymgeisio ac, os oes angen, wedi trafod unrhyw broblemau gyda'r Tîm Recriwtio ac Asesu, rydych chi'n barod i lenwi'r ffurflen gais.

Adran 3: Ein Gwerthoedd

Mae ein Gwerthoedd yn diffinio ein credoau - dyma ein rheolau craidd. Mae'r gwerthoedd yma yn bwysig i ni a dylen cael eu hadlewyrchu ym mhopeth a wnawn.

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru set o werthoedd sy'n disgrifio sut y byddwn ni'n gweithio fel sefydliad. Pa bryd bynnag y byddwch yn dod i gysylltiad â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, fel aelod o'r cyhoedd, partner, busnes, neu aelod o staff, dylai'r gwerthoedd hyn fod yn amlwg.

Gofalgar

Fe fyddwn ni'n ofalgar a thosturiol, yn arddangos pryder ac empathi dros bobl eraill.

Ymroddedig

Rydym yn ymroddedig i'r cymunedau lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw. Rydym ni wedi ymroi i achub bywydau a gweithio mewn partneriaeth fel rhan annatod o'n cymunedau.

Disgybledig

Rydym yn glir ynghylch ein rolau, ac yn gweithredu o fewn lefelau cytûn o awdurdod, o fewn amgylchedd disgybledig. Rydym yn ystyried mai'r ffurf uchaf ar ddisgyblaeth yw hunanddisgyblaeth.

Deinamig

Byddwn yn manteisio ar, ac yn gallu, newid neu gael ein newid. Rydym yn cymryd rhan mewn gweithgarwch egnïol, gydag egni a brwdfrydedd, ac rydym yn effeithiol iawn.

Proffesiynol

Byddwn yn arddangos proffesiynoldeb ym mhopeth y byddwn yn ymgymryd ag ef. Mae hyn yn golygu y byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau mewn modd cymwys a dibynadwy, gan arddangos arbenigedd ym mhopeth a wnawn, a sicrhau ein bod ni'n arddangos ymrwymiad i safon uchel Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru bob amser.

Gwydn

Byddwn yn rhagweld risg, yn lleihau effaith ac yn adlamu'n gyflym, trwy hyblygrwydd, datblygiad a thwff, wrth wynebu newid cynhyrfus. Byddwn yn deall amgylchiadau anodd ac yn adfer yn gyflym oddi wrthynt.

Parchus

Byddwn yn parchu ein gilydd a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn golygu trin pobl yn deg, derbyn gwahaniaethau a chydabod cyfraniad ein cydweithwyr a'n cymunedau.

Dibynadwy

Gallwch ddibynnu arnom i fod yn onest a geirwir.

Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu ideoleg graidd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Rwyf wedi darllen a deall Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub, a byddaf yn ymroi i'w harfer a'u hyrwyddo nhw.		Ydw <input type="checkbox"/>	
Llofnod:		Dyddiad:	

Adran 4: Cymhwyster

Os ydych chi'n ddinesydd y Gymanwlad neu'n wladolyn tramor, a yw eich arhosiad yn y DU yn rhydd rhag cyfyngiadau?

Nid yw'n berthnasol

Ydy

Nac ydy

Os nad ydy, rhowch fanylion:

Beth yw'r amser cyfartalog (munudau) y byddai'n ei gymryd i chi ymateb o'ch cartref i'r Orsaf Dân, gan deithio ar gyflymderau ffyrdd arferol?

Os yw'n berthnasol, beth yw'r amser cyfartalog (munudau) y byddai'n ei gymryd i chi ymateb o'ch gwaith i'r Orsaf Dân, gan deithio ar gyflymderau ffyrdd arferol?

A yw eich cyflogaeth yn cynnwys dyletswyddau gyrru cerbydau sy'n cludo teithwyr (PCV)/cerbydau nwyddau mawr (LGV)?

Ydy

Nac ydy

Os ydy, rhowch fanylion, gan gynnwys amllder ac am ba hyd:

Adran 5: Gofynion Cymorth

Mewn rhai achosion, rydym yn deall efallai y bydd angen cymorth ychwanegol i alluogi ymgeiswyr i gymryd rhan yn llawn yn y broses ddethol (e.e. dyslecsia). Cofnodwch unrhyw ofynion cymorth a all fod gennych yn y blwch isod. Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi ni i sicrhau y gwneir y trefniadau angenrheidiol ar eich rhan. Caiff y manylion hyn eu cadw'n gyfan gwbl gyfrinachol ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y penderfyniad dethol.

Sylwer, efallai y bydd angen tystiolaeth ategol ac arweiniad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau ein bod ni'n darparu addasiadau priodol ac effeithiol.

Os hoffech gysylltu ag aelod o'r tîm yn uniongyrchol i drafod eich gofynion, ffoniwch y Tîm Recriwtio ac Asesu ar 01443 232200.

Nid yw'n berthnasol

Angen Cymorth (manyion isod)

Ar gyfer cyfweiliadau/dulliau asesu a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, os bydd angen.

Darllen

- Dim sgiliau Cymraeg – angen yr holl ddogfennaeth yn Saesneg
- Deall gwybodaeth sylfaenol ar arwyddion, negeseuon e-bost, posteri ac ati
- Deall gwybodaeth ffeithiol syml ar ffurflenni, taflenni, llyfrau plant, negeseuon testun ac ati
- Deall gwybodaeth fanwl ar amrywiaeth o ffynonellau ysgrifenedig neu argraffedig, e.e. negeseuon e-bost manwl, ffurflenni, taflenni
- Caffael gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau manwl iawn e.e. tudalennau gwe, cyfarwyddiadau gwaith, cwymplenni
- Caffael a dehongli gwybodaeth arbenigol o amrywiaeth helaeth o ffynonellau cymhleth e.e. adroddiadau, dogfennau swyddogol

Siarad

- Dim sgiliau Cymraeg – angen yr holl gyfathrebu yn Saesneg
- Sgiliau cyfarfod a chyfarch, derbyn a throsglwyddo galwadau ffôn
- Cynnal sgwrs syml gan ddefnyddio ffeithiau syml amdanoch chi eich hun neu bobl eraill, gofyn cwestiynau syml i gaffael mwy o wybodaeth
- Ymdrin ag ymholiadau'n effeithiol, cyfrannu at drafodaeth am bynciau sy'n ymwneud â gwaith, gofyn cwestiynau treiddgar i gaffael gwybodaeth
- Caffael a thrafod gwybodaeth fanwl, trafod pynciau sy'n ymwneud â gwaith yn fanwl
- Caffael a chyfleu gwybodaeth hynod fanwl o ffynonellau arbenigol, amrywiol e.e. esbonio a thrafod gwybodaeth gymhleth

Ysgrifennu

- Dim sgiliau Cymraeg – angen yr holl ddogfennaeth yn Saesneg
- Llenwi ffurflen sylfaenol neu ysgrifennu neges syml gyda gwybodaeth e.e. manylion cyswllt y galwr
- Ysgrifennu negeseuon e-bost byr, syml, gan ddefnyddio geiriau a brawddegau syml
- Llunio negeseuon e-bost manwl, llenwi ffurflenni manwl, ysgrifennu cyfres o baragraffau byr sy'n cynnwys gwybodaeth syml, ffeithiol
- Cynhyrchu adroddiadau syml sy'n cynnwys ffeithiau a safbwyntiau, cyfnewid negeseuon e-bost manwl sy'n ymwneud â gwaith gyda chydweithwyr mewnol ac allanol – mae meddalwedd gramadeg a sillafu ar gael
- Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hyderus, mewn amrywiaeth o fformatau - mae meddalwedd gramadeg a sillafu ar gael

Adran 6: Manylion cyflogaeth

Ydych chi wedi gwneud cais blaenorol i fod yn Ymladdwr Tân / Ymladdwraig Dân, neu a oes gennych chi unrhyw geisiadau eraill ar y gweill ar hyn o bryd?

Nac ydw

Ydw

Os 'Ydw' yw eich ateb, rhowch fanylion llawn ynghylch pa Wasanaeth Tân ac Achub, y dyddiad a ph'un a oedd hynny Ar Alwad, Amser Llawn, neu arall, er enghraifft cynorthwyol, prentis, gwasanaeth tân ac achub preifat, ac a oedd eich cais yn llwyddiannus, yn aflwyddiannus neu dan ystyriaeth.

--

Hanes Cyflogaeth

Rhowch grynodedb o'ch cyflogaeth dros y 3 blynedd diwethaf, gan gynnwys unrhyw gyfnodau yn ddi-waith, gwaith gwirfoddol / di-dâl, gwasanaethu gyda'r Lluoedd Arfog neu hunangyflogaeth. Rhestrwch yn ôl trefn dyddiad (mwyaf diweddar yn gyntaf). Gwnewch yn siŵr bod y dyddiadau'n olynol a'ch bod chi wedi cynnwys pob cyfnod.

Rwy'n gyflogedig ar hyn o bryd

Rwyf wedi gweithio yn y gorffennol, ond rwy'n ddi-waith ar hyn o bryd

Nid wyf wedi cael fy nghyflogi erioed

Cyflogaeth bresennol / fwyaf diweddar

Teitl y Swydd	
Enw'r Cyflogwr/Sefydliad	
O dd/mm/bb	
I dd/mm/bb	
Rheswm dros adael (os yw'n berthnasol)	

Cyflogaeth Flaenorol

Teitl y Swydd	
Enw'r Cyflogwr/Sefydliad	
O dd/mm/bb	
I dd/mm/bb	
Rheswm dros adael (os yw'n berthasol)	

Cyflogaeth Flaenorol

Teitl y Swydd	
Enw'r Cyflogwr/Sefydliad	
O dd/mm/bb	
I dd/mm/bb	
Rheswm dros adael (os yw'n berthasol)	

Manylion ynghylch unrhyw fwch mewn cyflogaeth	
O dd/mm/bb	
I dd/mm/bb	
Manylion	

Adran 7: Canolwyr

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn gwneud cais am fanylion canolwyr. Byddwn yn ceisio geirdaon gan gyflogwyr presennol a blaenorol a / neu eirdaon cymeriad. Dylai geirdaon cyflogwr gynnwys cyfnod o **dair blynedd, ac un** geirda cymeriad. Os nad oes gan ymgeisydd unrhyw gyflogaeth flaenorol, bydd angen **dau** eirda cymeriad, a gall un ohonynt fod gan ysgol neu goleg yr ymgeisydd, os yw'n berthnasol.

Mae perthnasau'n cael eu **gwahardd** rhag darparu geirdaon.

Adran 8: Datgan Troseddau

Mae'n ofynnol i chi ddatgan unrhyw euogfarnau sydd **heb ddarfod** o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Mae'n cynnwys troseddau yr aed i'r afael â nhw mewn llys barn, gweithdrefnau disgyblu Gwasanaethau EM, ac unrhyw droseddau gyrru.

Os nad ydych chi'n siŵr a yw trosedd wedi darfod, ewch i www.nacro.org.uk i gael cyngor ac arweiniad.

Sylwer, os byddwch yn methu datgan unrhyw euogfarnau heb ddarfod, a byddant yn cael eu hamlygu'n ddiweddarach, bydd hyn yn cael ei ystyried yn Gamymddygiad Dybryd, ac eir i'r afael â hyn yn unol â hynny, a gallai arwain at gael eich diswyddo o'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Ydych chi ar hyn o bryd yn destun unrhyw euogfarn nad yw wedi darfod eto o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974?

Nac ydw (ewch i Adran 9)

Ydw (gweler isod)

Os ydych, rhowch fanylion isod

Trosedd	
Dyddiad yr euogfarn	
Dyfarniad (gan gynnwys dirwy a dedfryd)	

Os yw'n berthnasol, rhowch fanylion isod

Trosedd	
Dyddiad yr euogfarn	
Dyfarniad (gan gynnwys dirwy a dedfryd)	

Os oes gennych chi unrhyw gyhuddiadau dan ystyriaeth, rhowch fanylion y cyhuddiadau a natur y drosedd honedig:

--

Adran 9: Datganiad

Rwy'n cytuno i'r wybodaeth yn y ffurflen hon gael ei storio at ddibenion fy nghais, ar gyfer monitro ac ar gyfer ymchwil rhesymol i'r broses ymgeisio, yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data bresennol.

Cadarnhaf fy mod i wedi llenwi'r ffurflen gais hon a, hyd eithaf fy ngwybodaeth, mae'r wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi yn wir ac yn gywir.

Teipiwch eich enw isod. Bydd yn cael ei dderbyn fel llofnod electronig. Mae'r math hwn o lofnod yn darparu'r un statws cyfreithiol â llofnod llawysgrifen.

Enw'r ymgeisydd:	
Llofnod	
Dyddiad heddiw dd/mm/bb:	

Sylwer: Ni fydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu derbyn. Felly, argymhellir eich bod chi'n gwirio pob adran cyn ei chyflwyno.

Bydd cysylltu ag unrhyw Gyngorydd etholedig neu un o weithwyr Awdurdod Tân ac Achub yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i hyrwyddo'r cais hwn, neu ddarparu gwybodaeth ffug/gamarweiniol ar y ffurflen hon, yn eich diarddel rhag cael eich penodi neu os byddwch wedi cael eich penodi, gallai arwain at gael eich diswyddo.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid o gwbl ar unrhyw adeg yn ystod y broses recriwtio, cysylltwch â ni ar unwaith.

A hoffech dderbyn diweddariadau rheolaidd gan y Tîm Recriwtio ac Asesu?

Hoffwn

Na hoffwn

Adran 10: Monitro Cydraddoldeb

Cyfrinachol

Fel Gwasanaeth, rydym ni'n gwerthfawrogi gwir werth cael gweithlu amrywiol. Er mwyn sicrhau bod ein hysbysebion recriwtio yn denu pobl o bob grŵp yn y gymuned, byddem yn ddiolchgar petaech yn ateb y cwestiynau canlynol. Mae'r wybodaeth hon yn gyfrinachol a chaiff ei defnyddio at ddibenion monitro'n unig. Caiff y wybodaeth hon ei gwahanu oddi wrth y Ffurflen Gais cyn dethol y rhestr fer.

Rhyw

<input type="checkbox"/> Benywaidd	<input type="checkbox"/> Gwrywaidd	<input type="checkbox"/> Trawsrywiol	<input type="checkbox"/> Heb fod yn fenywaidd nac yn wrywaidd	<input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio ag ateb
------------------------------------	------------------------------------	--------------------------------------	---	--

Oedran

<input type="checkbox"/> Iau nag 18 oed	<input type="checkbox"/> 18-24 oed	<input type="checkbox"/> 25-40 oed	<input type="checkbox"/> 41-59 oed	<input type="checkbox"/> 60 oed a hŷn	<input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio ag ateb
---	------------------------------------	------------------------------------	------------------------------------	---------------------------------------	--

Anabledd

<input type="checkbox"/> Mae gen i anabledd	<input type="checkbox"/> Nid oes gen i anabledd	<input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio ag ateb
---	---	--

Tarddiad Ethnig

Sylwer: Nid yw'r cwestiynau ynghylch tarddiad ethnig yn ymwneud â chenedligrwydd, man geni na dinasyddiaeth. Maen nhw'n ymwneud â lliw a grŵp ethnig eang - gall dinasyddion y DU berthyn i unrhyw un o'r grwpiau a nodir.

Asiadd neu Asiadd Prydeinig	<input type="checkbox"/> Bangladeshaidd	Cymysg	<input type="checkbox"/> Gwyn a Du Affricanaidd
	<input type="checkbox"/> Indiaidd		<input type="checkbox"/> Gwyn a Du Caribiaidd
	<input type="checkbox"/> Pacistanaidd		<input type="checkbox"/> Gwyn ac Asiadd
	<input type="checkbox"/> Asiadd arall		<input type="checkbox"/> Cymysg arall
Du neu Ddu Brydeinig	<input type="checkbox"/> Affricanaidd	Tsieineaidd	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/> Caribiaidd	Gwyn	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/> Du arall	Mae'n well gen i beidio ag ateb	<input type="checkbox"/>
		Arall (nodwch)	<input type="checkbox"/>

Crefydd neu Gred

<input type="checkbox"/> Bwdhydd	<input type="checkbox"/> Cristion	<input type="checkbox"/> Hindŵ
<input type="checkbox"/> Iddew	<input type="checkbox"/> Mwslim	<input type="checkbox"/> Sikh
<input type="checkbox"/> Dim	<input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio ag ateb	<input type="checkbox"/> Arall (nodwch)

Cyfeiriadedd Rhywiol

<input type="checkbox"/> Deurywiol	<input type="checkbox"/> Hoyw	<input type="checkbox"/> Heterorywiol	<input type="checkbox"/> Lesbiaidd	<input type="checkbox"/> Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio ag ateb
------------------------------------	-------------------------------	---------------------------------------	------------------------------------	---	--

